



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ar gyfer
Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020
a
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC

Dyddiad Dechrau:

Ionawr 2020

Cyfeiriad cyswllt e-bost:

wellbeingshare@gov.wales

Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020 i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALI) gynnal a phoblogi cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. At hynny, bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol (BILlau) ddatgelu gwybodaeth anfeddygol i ALI er mwyn ei helpu i adnabod plant nad ydynt ar gofrestr ysgol, nac ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) nac yn cael addysg addas. Hefyd, bydd Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol ddatgelu i ALI wybodaeth am ddysgwyr sydd ar eu cofrestr.

Bydd y rheoliadau hyn yn rhoi'r sail gyfreithlon dros ddatgelu gwybodaeth benodol gan fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i awdurdodau lleol. Drwy sefydlu cronfa ddata, bydd pob ALI mewn gwell sefyllfa i gyflawni ei ddyletswydd i adnabod pob plentyn yn ei ardal a sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac wrth wneud hyn atgyfnerthir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael addysg sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt gyflawni eu potensial.

O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996¹, mae dyletswydd ar ALLau i wneud trefniadau i adnabod plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas. Mae'r ddyletswydd hon yn ymestyn i bob plentyn yn yr ardal, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn hysbys i'r ALI.

Ym mis Ionawr 2018, ymrwymodd y Gweinidog Addysg i ddefnyddio'r pwerau presennol o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004² i wneud rheoliadau a fydd yn:

- ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALI) sefydlu a chynnal cronfa ddata i'w gynorthwyo i adnabod plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/436A>

² <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/section/29>

gynhelir, nac ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nac ar gofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn cael addysg addas:

- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ddatgelu i ALLau wybodaeth benodol, gyfyngedig, anghlinigol am blentyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw;
- ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol ddatgelu i'r ALI wybodaeth am ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru yn eu sefydliad.

Bydd Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020 drafft a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon ac fel y cyfryw ni fydd angen cydsyniad rhieni.

Bydd y data a ddelir ar gronfa ddata pob ALI wedi'u cyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol i adnabod plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol, nac ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) nac yn cael addysg addas. Ni fydd y data yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ac os caiff y data eu rhannu bydd angen pwrpas, nod dilys, megis sicrhau llesiant plentyn neu berson ifanc. Bydd asesiad tra manwl ar sail gwybodaeth (cymesuredd) yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod rhannu data yn gydweidd â deddfwriaeth diogelu data a mesurau cyfreithiol eraill sy'n diogelu plant, pobl ifanc a rhieni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod budd ehangach y dull gweithredu hwn yn rhesymol o ran addysg a lles cyffredinol plant a addysgir yn y cartref. Y canlyniadau tymor hwy os na fydd ALLau yn cael sicrwydd bod pob plentyn sy'n byw yn eu hardal yn cael addysg addas yw y bydd y plant yn annhebygol o ennill cymwysterau cydnabyddedig, y byddant yn ei chael hi'n anodd dod yn rhan o'r farchnad lafur ac y byddant mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Hirdymor

Dengys ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer 2018/19³ fod ALLau yn gwybod am 2,517 o blant a addysgir yn y cartref. Mae pob ALI yn gyfrifol am sicrhau bod pob plentyn yn ei ardal – hyd yn oed y rhai nad yw'n ymwybodol ohonynt – yn cael addysg addas. Bydd rheoliadau'r gronfa ddata yn galluogi pob ALI i lunio cronfa ddata resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal drwy baru data addysg ac iechyd.

Nid yw'r polisi hwn yn cael ei gyflwyno ar ei ben ei hun ac mae'n rhan o gyd-destun ehangach diwygio addysg fel y nodir yn *Addysg yng Nghymru*:

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf>

Cenhadaeth ein Cenedl⁴ – cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-21 – sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er bod cenhadaeth ein cenedl yn nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud yn ei blaen dros y pedair blynedd nesaf, dylai'r egwyddorion o ddarparu'r cymorth angenrheidiol i blant mewn ysgolion – a'r hawl i bob plentyn gael addysg – fod yr un mor gymwys i'r rhai a gaiff eu haddysgu yn y cartref.

Atal

Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg amser llawn effeithlon ac addas o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, yn ogystal â bod yn hawl o dan CCUHP, a bydd yn helpu i sicrhau bod plant yn datblygu ac yn cyrraedd eu potensial llawn, ac yn lleihau'r posibilrwydd na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd y gronfa ddata yn helpu i adnabod plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd neu ysgolion annibynnol ond nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn galluogi'r ALI i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn ei ardal, gan gynnwys y rhai nad yw'n ymwybodol ohonynt, yn cael addysg addas.

Integreiddio

Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi ein cenhadaeth ganolog i greu Cymru ffyniannus sydd o fudd i bawb. Ein nod hirdymor yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; sy'n iach ac egniol; sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nododd Llywodraeth Cymru 12 o amcanion llesiant a oedd yn amlinellu lle y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf at y Nodau Llesiant Cenedlaethol, gan roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd ein penderfyniadau.

Mae'r rheoliadau hyn yn cefnogi'r nod o greu Cymru fwy cyfartal, cymdeithas sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau a chyflawni eu potensial, ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol)

Ffyniant i Bawb

Ysgogir y cynigion hyn gan yr angen i gefnogi hawl plant i addysg a sicrhau eu bod nhw, a'u rhieni, yn cael eu grymuso a'u bod yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi'u targedu sydd â'r nod o gefnogi eu llesiant.

⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf>

Drwy ei gwneud yn ofynnol i ALLau ddatblygu a chynnal cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal bydd hynny'n eu helpu i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn arfer ei hawl i gael addysg yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996⁵ a bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu a gwireddu eu huchelgeisiau.

Cydweithio/Cynnwys

Ymhlith y partneriaid sydd â diddordeb yn y rheoliadau arfaethedig mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ysgolion annibynnol ac addysgwyr yn y cartref.

Hefyd, mae swyddogion wedi ymgysylltu â chydweithwyr ym maes iechyd, timau trawsnewid digidol a chydweithwyr ym maes diogelu data.

Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn trafod goblygiadau o ran diogelu data a GDPR. Caiff Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei gyhoeddi.

At hynny, mae gweithgor mewnol a oedd yn cynnwys swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru wedi goruchwyllo'r broses o ddatblygu'r rheoliadau drafft.

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos rhwng 30 Ionawr ac 22 Ebrill 2020.

Effaith

Mae'r prif ddadleuon o blaid bwrw ymlaen â'r rheoliadau arfaethedig hyn fel a ganlyn:

- Byddant yn helpu i adnabod plant;
- Byddant yn sicrhau bod pob ALI yn defnyddio dull cyson a chadarnach o adnabod plant;
- Byddant yn creu sail gyfreithlon dros ddatgelu gwybodaeth;
- Byddant yn helpu ALLau i gyflawni eu dyletswydd statudol i adnabod plant nad ydynt yn cael addysg addas a chymryd unrhyw gamau adferol fel y bo'n briodol, e.e. rhoi cymorth ychwanegol.

Mae'r dadleuon yn erbyn bwrw ymlaen â'r rheoliadau arfaethedig hyn fel a ganlyn:

- Efallai y bydd ALLau yn ymateb yn negyddol i'r rheoliadau o ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd arnynt i adnabod plant a addysgir yn y cartref, datblygu a chynnal y gronfa ddata a pharu data addysg ac iechyd, yn hytrach na dyletswydd ar rieni i hysbysu'r ALI eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7>

- Ni fydd fawr ddim cefnogaeth i'r rheoliadau arfaethedig ymhlith rhai cymunedau sy'n addysgu yn y cartref, a bydd rhai yn ystyried eu bod yn herio eu dewis i addysgu eu plant yn y cartref.
- Mae ffyrdd o adnabod plant, megis data genedigaethau byw a data cofrestrau ysgolion, ar gael eisoes i ALLau.

Costau ac Arbedion

DADANSODDIAD COST A BUDD

Costau ychwanegol posibl

Mae gan bob ALI restr o blant a addysgir yn y cartref sy'n hysbys iddo, a gwybodaeth am bob disgybl sydd ar gofrestr ysgol. Ni ddylai'r costau gweinyddu ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnal cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn fod yn sylweddol.

Bydd plant a adnabyddir o ganlyniad i'r rheoliadau o bosibl yn dod o dan brotocolau sy'n ymwneud â phlant sy'n colli addysg hyd nes bod yr ALI yn fodlon eu bod yn cael addysg addas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.1m, yn dechrau yn y flwyddyn ariannol 2020-21, i helpu ALLau i gyflawni eu dyletswyddau presennol a bodloni'r disgwyliadau newydd fel y'u hamlinellir mewn canllawiau statudol newydd ar addysg yn y cartref. Hefyd, bydd yn darparu £400k i ALLau er mwyn iddynt roi cymorth uniongyrchol i blant a addysgir yn y cartref fel rhan o'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu i helpu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Systemau

Y cynnig yw y dylid cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ALI sefydlu a phoblogi cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. Unwaith y bydd gan yr ALI gronfa ddata resymol gyflawn, yna bydd yn gallu cymharu data addysg ac iechyd er mwyn adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo eisoes, a sicrhau eu bod yn cael addysg addas, ni waeth ble mae hynny'n digwydd. Bydd y rheoliadau yn rhoi'r sail gyfreithlon dros ddatgelu gwybodaeth benodol gan BILlau ac ysgolion annibynnol i awdurdodau lleol.

Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data eu cwblhau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r broses o gwblhau'r asesiadau.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hawl rhieni i addysgu eu plant yn y cartref ond, yn yr un modd, mae'n cydnabod bod yn rhaid cydbwysu hyn â hawl plentyn i gael addysg. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, gan roi systemau ar waith i alluogi ALLau i gyflawni eu dyletswyddau. Yn y pen draw, mae methu â darparu addysg addas yn anghydnaws â CCUHP y mae Cymru wedi'i lofnodi.

Er mwyn ymgymryd â swyddogaethau addysg penodol, bydd angen i ALLau wybod manylion penodol am blant y maent yn gyfrifol amdanynt yn eu hardal. Diben y rheoliadau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a chynnal ei gronfa ddata ei hun sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. Bydd y gofyniad ychwanegol ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i ddatgelu gwybodaeth i'r ALI yn ei helpu i lunio cronfa ddata resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal.

Ystyriwyd cydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r holl broses o ddatblygu'r polisi hwn. Nod y rheoliadau hyn yw sicrhau y caiff ALI gymorth i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn canfod p'un a yw plant yn ei ardal yn cael addysg addas ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn ddull cymesur a rhesymol o sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas.

Caiff y rheoliadau yr effaith fwyaf ar ALLau. iByddant hefyd yn effeithio ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol yn sgil y gofyniad newydd i ddatgelu gwybodaeth benodol i bob ALI.

Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r gronfa ddata, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn i ALLau gyflwyno datganiad blynyddol ar nifer y plant y maent wedi'u hadnabod drwy ddefnyddio'r gronfa ddata nad oeddent yn hysbys iddynt yn flaenorol.

Wrth inni weithio i lunio'r rheoliadau terfynol, byddwn yn parhau i ddatblygu a mireinio dulliau o werthuso effaith y rheoliadau.

Mae'r ddogfen hon hefyd
ar gael yn Saesneg. This
document is also
available in English.

OGI WG35754 © Hawlfraint y Goron 2018